

CWYNION BWYD



Cyn gwneud unrhyw gwyn, plîs darllenwch y ddogfen gan efallai y bydd yn cynnwys yn berthnasol i'ch mater. Os yr hoffech gymorth pellach plîs ffoniwch 01766 771000, e-bostio bywd@gwynedd.gov.uk neu gallwch gwblhau ffurflen cwyn bwyd ar-lein.

BWYD TUN

Trychfilod – Yn achlysurol, fe gewch gynrhon bach mewn llyisiau tun yn enwedig india-corn a thomatos. Larfaod gwyfyn sy'n byw yng nghnewyllyn yr india-corn neu domato yw'r cynrhon ac maent yn amhosibl eu gweld cyn eu prosesu. Er nad yw'n braf cael hyd i gynrhonyn yn eich bwyd, mae'r broses dunio'n eu lladd a'u diheintio. Fel y bydd llai o ddefnyddio plaladdwyr, bydd y mathau hyn o broblem yn cynyddu.

Gweithredu: Dychwelyd i'r gwerthwr neu gysylltu â'r gwneuthurwr

Dim Perygl i Iechyd y Cyhoedd

Gwenyn meirch a phryfed ffrwythau – mae'r rhain yn gysylltiedig yn naturiol â ffrwythau ac i'w cael yn aml mewn tuniau o ffrwythau. Nid ydynt yn cludo afiechydon.

Camau: Cysylltu â'r gwneuthurwr

Dim Perygl i Iechyd y Cyhoedd

PYSGOD

Llyngyr y penfras – Gall cnawd pysgod gwyn fel penfras neu hadog fod yn llawn mwydod bach, crwn brownaidd /melyn. Mae coginio'n eu lladd ac nid ydynt yn peryglu pobl. Fel arfer, mae rhannau'r pysgod yr effeithiwyd arnynt yn cael eu tynnu, ond fe all rhai gael eu methu.

Camau: Cysylltu â'r gwerthwr neu gyflenwr

Dim Perygl i Iechyd y Cyhoedd

Struvite – Gall rhai elfennau sy'n digwydd yn naturiol mewn pysgod ddatblygu'n risialau caled yn ystod y broses dunio. Mae modd camgymryd y grisialau hyn fel tameidiau gwyrdd a'u henw yw Struvite. Nid ydynt yn niweidiol a bydd asid y stumog yn eu dadelfennu os cânt eu llyncu.

Mae Struvite yn gyffredin iawn mewn eog tun a bydd yn toddi o'i roi mewn finegr a'i dwymo'n ysgafn am hyd at 15-20 munud (efallai na fyddant yn toddi'n gyfan gwbl yn y cyfnod hwn ond byddant yn mynd yn llai). Ni fydd gwyrdd yn toddi.

Camau: Twymo'n ysgafn mewn finegr am 15-20 munud. Os yw'n Struvite, cysylltu â'r gwneuthurwr. **Os yw'n wydr, cysylltu â'r Tîm Diogelwch Bwyd.**

Dim Perygl i Iechyd y Cyhoedd os yw'n Struvite. **Perygl i Iechyd y Cyhoedd os yw'n wydr**

CIG A DOFEDNOD

Croen, esgyrn ac ati – Gall cynhyrchion cig a/neu ddofednod gynnwys esgyrn bach, croen neu rannau o lestri gwaed. Mae'r rhain yn hyll ond yn anaml yn peryglu iechyd gan eu bod yn rhannau arferol o'r anifail gwreiddiol. Weithiau gallant achosi problemau fel torri dant a'r ffordd orau yw i'r rhain unigolyn ddelio â'r rhain – trwy'r Llys Sifil os bydd angen.

Camau: Cysylltu â'r gwerthwr neu'r gwneuthurwr

Dim Perygl i Iechyd y Cyhoedd

FFRWYTHAU A LIYSIAU

Cerrig, pridd a malwod duon – Mae'n gyffredin i ffrwythau a llysiau ddod gyda phridd, cerrig neu falwod bach. Mae hyn yn hollol arferol gan eu bod yn dod o'r pridd.

Camau: Golchi holl ffrwythau a llysiau'n drwyadl cyn eu bwyta

Dim Perygl i Iechyd y Cyhoedd

Llau'r dail - Gall fod llau'r dail mewn llysiau salad, yn enwedig letys. Mae hyn yn dod yn fwy cyffredin wrth ddefnyddio llai o blaladdwyr, ond nid ydynt yn niweidiol.

Camau: Golchi holl llysiau salad yn drwyadl

Dim Perygl i Iechyd y Cyhoedd

Sylwch: Bydd llwydni'n tyfu'n naturiol ar ôl cleisio neu niweidio ffrwythau a llysiau. Bydd hyn yn lleihau os bydd y prynwr yn edrych ar y cynnyrch cyn ei brynu ac yn ei drin yn ofalus wedyn.

NWYDDAU BECWS

Golosg Becws – Gall bara a theisenni gynnwys tameidiau o does wedi gorgrasu sydd wedi dod oddi ar duniau becws. Nid yw o angenrheidrwydd yn dangos glanweithdra gwael er y gallant gael eu camgymryd am faw cnofilod. Mae'r rhain yn ddu ac o siâp torpido rheolaidd, tra bo golosg becws yn llwydaidd ac o siâp garw.

Camau: Cysylltu â'r gwneuthurwr neu, os byddwch yn amheus, y Tîm Diogelwch Bwyd

Dim Perygl i Iechyd y Cyhoedd

Saim wedi Carboneiddio – Bydd y peiriannau sy'n cael eu defnyddio i gynhyrchu bara a theisenni yn cael eu hiro gydag olew llysiau diwenwyn. Yn achlysurol, gall rhywfaint o hyn ddod yn rhan o'r does gan wneud iddo edrych yn llwyd a seimllyd.

Camau: Cysylltu â'r gwneuthurwr

Dim Perygl i Iechyd y Cyhoedd

BWYDYDD SYCH

Trychfilod – Gall cynhyrchion sych fel blawd, siwgwr a chorbys gynnwys trychfilod bach fel psosidiaid (llau llyfrau). Nid yw’r rhain yn cludo afiechydon, ond maent yn hyll a gallant fwyta trwy bapur y pecyn. Maent yn magu’n gyflym iawn dan amgylchiadau cynnes, llaith gan ledaenu i fwyd dihalog yn gyflym iawn.

Camau: Taflu holl fwyd yr effeithiwyd arno, glanhau cypyrddau gyda thoddiant cannu (dilyn y cyngor ar y botel) a sychu’n drwyadl. Cadw bwyd sych newydd mewn cynwysyddion seliedig. Sicrhau awyru da mewn cypyrddau cegin / cadw ac, os dymunwch, cysylltu â’r Tîm Diogelwch Bwyd i gael cyngor.

Dim Perygl i Iechyd y Cyhoedd

SIOCLED/MELYSION

Gwawr - Gall siocled ddatblygu gwawr olau o’i gadw’n rhy gynnes. Nid yw’n llwydni ond daw oherwydd gwahaniad braster ac nid yw’n niweidiol.

Camau: Dychwelyd i’r gwerthwr

Dim Perygl i Iechyd y Cyhoedd Bloom

Grisialau Siwgwr – Gall grisialau siwgwr mawr ffurfio mewn melysion ac mae’n hawdd eu camgymryd fel gwydr. Bydd y grisialau’n toddi mewn dŵr cynnes.

Camau: Profi gyda dŵr cynnes, **cysylltu â’r Tîm Diogelwch Bwyd os nad yw’r grisialau’n toddi.**

Dim Perygl i Iechyd y Cyhoedd o grisialau siwgwr, **Perygl i Iechyd y Cyhoedd o wydr**

Mae Cyngor Gwynedd yn ddiolchgar i Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam am gynnwys y ddogfen